Cyngor Cymuned Ganllwyd

Rhagfyr 10fed 2025

**Presennol**

Cyng D.Morris, S.Jones,S.Roberts,C.Dixon,D.Griffiths.

**Ymddiheuriadau**

Cyng G.Jones.

**Cofnodion Tachwedd 2025.**

Cynnigwyd yn gywir gan S.Roberts ac eilwyd gan D.Morris.

**Datagan diddordeb mewn un rhyw fater a drafodir.**

Dim

**Materion yn codi.**

Dim.

**Toiled cyhoeddus**.

Mae’r cyngor wedi derbyn e-bost gan Cyngor Gwynedd i hysbysu eu bod yn bwriadu codi cost ein cyfraniad tuag at gynnal y toiliadau cyhoeddus o £250 y flwyddyn i £340 y flwyddyn.

Wedi trafod y mater mae’r cyngor angen mwy o fanylion i sut penderfynnwyd codi’r gost-sef dros 30%.

**Cynghorwr Sir.**

Mae Cyngor Gwynedd yn yn trafod eu cynlluniau cyllideb ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026/27.

Yn ystod y trafodaeth bydd yn rhaid iddynt wynebu'r ffaith eu bod wedi gwario gormod o'r gyllideb bresennol gyda £22m eleni ac y bydd ganddynt £7.1m llai o arian yn nghronfeydd ariannol mewn rhai adrannau.

Mae’n debyg bydd rhaid codi treth y cyngor unwaith eto i gadw'r llyfrau'n gydbwys a pharhau i weithredu'n gyfreithiol

Erthygyl 4- O ganlyniad i benderfyniad Llys diweddar a ystyriodd rai rhannau o'r polisi hwn yn anghyfreithlon mae Cyngor Gwynedd wedi atal y polisi dros dro tra bo apel Llys cael ei ystyried.

Ceiswyr lloches- Mae Cyngor Gwynedd wedi derbyn gwybodaeth gan Llywodraeth Prydain fod rhaid i'r Sir dderbyn y bobl yma i'r ardal.

Bydd mwy o wybodaeth i ddilyn.

Ffermyddi bach- MaeCyngor Gwynedd wedi derbyn grant o £2.1m i wella cyflwr ffermydd bach y Sir. Bydd 14 fferm yn ardal Rhydymain yn derbyn swm o arian o'r cronfa yma

**Caru Coed y Brenin.**

Mae'r broses geisiadau i gymryd drosodd ganolfan Coed y Brenin wedi cychwyn. Bydd Caru Coed y Brenin yn cyflwyno cais, ond mae'r grŵp yn disgwyl cystadleuaeth gadarn gan sefydliadau eraill cynnwys cwmni Forestry Holidays er mwyn fod yn llwyddianus.

Fydd y broses yn dod i ben diwedd mis Mawrth 2026.

**Materion ariannol.**

Cyson Banc Tachwedd 2025

| | |
|---|---|
| Yn y Banc ar ddechrau'r Mis: | £2924.51 |
| | |
| Derbyniwyd: | |
| Dim | |
| Taliadau: | |
| Cyflog/Paye | £100.00 |
| Treuliau banc | £0.80 |
| Signs workshop | £1344.00 |
| Llogi'r neuadd | £165.00 |
| | |
| Yn y Banc diwedd y mis | £1314.71 |

Mae aelodau’r cyngor wedi archwilio manylion y gwariant  misol a chytuno bod y gwariant wedi'i gynnal yn unol â chynlluniau'r gyllideb. Nid oedd y gwariant yn torri asesiad risg arianol y cyngor.

**Cynghorwr a clerc Newydd.**

Heb ei trafod.

Bydd y clerc yn cysylltu a Un Llais Cymru i drafod ffyrdd o hysbysebu swydd y clerc.

Materion eraill i drafod.

Dim.